# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

### PENNOD 3

RHYDDHAD RHAG TRETH

**29 Defnyddio deunydd mewn gwaith adfer safle cymeradwy**

(1) Mae gwarediad trethadwy wedi ei ryddhau rhag treth os yw—

(a) yn warediad deunydd sy'n ddeunydd cymwys i gyd, a

(b) yn rhan o waith adfer a gyflawnir yn unol â chymeradwyaeth a roddir gan ACC.

(2) Ni chaiff ACC gymeradwyo cyflawni gwaith adfer ar safle tirlenwi awdurdodedig onid yw—

(a) gweithredwr y safle yn gwneud cais ysgrifenedig i ACC am y gymeradwyaeth,

(b) y cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adfer ddechrau, ac

(c) ACC wedi ei fodloni bod y gwaith yn ofynnol o dan un o amodau trwydded amgylcheddol neu ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r safle.

(3) Caiff cymeradwyaeth—

(a) ymwneud â'r holl waith a ddisgrifir yn y cais am y gymeradwyaeth neu ran ohono;

(b) ymwneud â gwaith a gyflawnwyd cyn i'r gymeradwyaeth gael ei rhoi neu a gyflawnir ar ôl hynny (neu'r ddau);

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 29. (See end of Document for details)*

(c) bod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau (er enghraifft, amod sy'n gwneud rhoi adroddiadau i ACC ynglŷn â chyflawni'r gwaith yn ofynnol).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 29(2)(3) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(e)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 29.